Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Tachwedd 28ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Dawn Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Hugh Towns, Cyng Christopher Parish.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Cyng Fran Murphy.

Materion yr Heddlu : Dywedodd y Swyddog Cefnogaeth Cymunedol Rob Smith fod yna 2 Ymosodiad a 1 bwrgleriaeth wedi'u hadrodd y mis hwn a bod ymholiadau yn cael eu gwneud. Mae alcohol wedi'i atafaelu oddi wrth rai pobl ifanc yn eu harddegau cynnar. Gofynnodd y Cyng Colin Jenkins i'r Heddlu fod yn ymwybodol bod gyrwyr yn parcio ar y llinell ddwbl newydd ym Maes Mwyn tra'n mynd â'u plant i'r ysgol. Dywedodd y Maer Cyng Richard Wallace fod y groesfan i gerddwyr yn mynd yn fwy peryglus. Cynigiodd y dylid anfon llythyr at yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn gofyn am groesfan belican yn lle'r groesfan bresennol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 203 / Tachwedd /07 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones am y gwaith da sy'n cael ei wneud yn plannu blodau wrth y fynedfa i'r Dref. Mae hyn wedi'i wneud er mwyn gwella golwg y Dref, a hynny heb ofyn am dâl. Cytunwyd y dylid anfon llythyr o ddiolch.
Rhoddodd Cyng Sir Jones ddadansoddiad o'r rhoddion yn mae wedi'i sicrhau ar gyfer gwahanol fudiadau yn y Dref
Addurno'r Neuadd Ddinesig - £ 1500
Apêl llif oleuadau Cae William - £1000
Neuadd y Sgowtiaid £250
Eisteddfod Leol y Plant £250
Achlysur Canmlwyddiant Parc Penlan £1000

Cof 204 / Tachwedd / 07 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Hydref 24ain, 2007 fel cofnod cywir gyda'r Cyng Ieuan Gwyn yn cynnig a'r Cyng Dawn Wallace yn eilio. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, 12fed Tachwedd ond methwyd a'u cofnodi fel cofnod cywir oherwydd camgymeriad argraffu. Mae'r gweithredoedd a argymhellwyd gan y cofnodion wedi'u gweithredu. Cant eu cyflwyno yn y Cyfarfod Llawn nesaf o'r cyngor ar Ragfyr 12fed, 2007.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Tachwedd 12fed, 2007 fel cofnod cywir a'u hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn wedi cynnwys y newidiadau canlynol
Cof 196/ Tachwedd / 07 Anfonebau i'w talu – Ychwanegwch David Siggery (gosod Datguddiwr mwg) - £445.34
Cof 199 / Tachwedd / 07 Balansau Tân Gwyllt ar 12.11.07
Tynnu W. Kingsbury o'r gwariant o £25.26 (Goleuadau Nadolig)
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 205 / Tachwedd / 07 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Parthed Cof 153/ Medi/ 07 Ymgynghoriad LlCC – Cyfrifoldeb a Rennir. Cytunwyd y dylai Cynghorwyr sy'n dymuno gwneud sylwadau ddychwelyd yr holiadur i'r Clerc i'w gyflwyno.

Cof 206 / Tachwedd / 07 I Ystyried Gohebiaeth sydd angen ei ateb
1. CSC – Datganiad i'r Wasg mewn perthynas â gwerthu Neuadd y Farchnad. Roedd y Cynghorwyr yn siomedig mai dim ond ychydig oriau cyn y cyfarfod wnaethant dderbyn hwn, wedi iddo fod yn y wasg. Mae'r ceisiadau dewisol wedi dod gan Grŵp Morgans a Gwalia. Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o fasnachol (swyddfa/gweithdy/manwerthu), defnydd cymunedol a phreswyl o'r neuadd farchnad, ynghyd â chyfleuster i gynnal cynadleddau a champfa. Yn ogystal fe fyddai yna amrywiaeth o dai newydd. Bydd Morgans a Gwalia yn rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod cyhoeddus. Dywedodd y Cynghorydd Sir fod y cais gan Morgans yn sylweddol fwy na'r ceisiadau eraill. Gan fod y Neuadd yn adeilad rhestredig graddfa 2, bydd yn rhaid i CADW gymeradwyo'r cynlluniau.
Cyflwynodd y Cyng Roy Davies adroddiad oedd yn feirniadol o'r diffyg cyfathrebu gan CSC er gwaetha'r ffaith i'r Maer a'r Cyng Davies gael sicrwydd gan Mark James (Prif Weithredwr) ac Uwch Swyddogion y byddai yna ymgynghori mewn perthynas â'r adeilad sydd mor bwysig i'r Dref.
Cytunwyd y dylid anfon llythyr yn nodi eu pryderon ac yn gofyn i CSC gadarnhau yn ysgrifenedig eu parodrwydd i gynnwys y Cyngor Tref yn eu cynlluniau a thrafodaethau yn y dyfodol.
2. Nice Price News. Parthed cais trwyddedu a wnaed gan 44, Heol Rhosmaen. Cytunwyd y dylid anfon gwrthwynebiadau Mr Price ymlaen i Adran Drwyddedu CSC, ynghyd â gwrthwynebiadau'r Cyngor. Dymuna'r Cyngor wrthwynebu ar sail oriau agor hwyr (1.30am) bob dydd gyda thrwydded adloniant ar gyfer cerddoriaeth fyw am yr un amser.
Cafodd y Clerc yr hawl i ysgrifennu at Rhodri Glyn Thomas AC ac Adam Price AS yn mynegi pryder nad yw'r Cyngor Tref yn derbyn gwybodaeth am geisiadau trwyddedu gan CSC.
3. Rhybudd LlCC o Gyfyngiadau Traffig Dros Dro. Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu yn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynigion.
4. Un Llais Cymru – Rhybudd o ddyfarniadau cyflogai cenedlaethol newydd a gytunwyd arnynt. Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd enwebedig ar gyfer Personél archwilio'r rhain ac y byddant yn cael eu gwirio yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.
5. Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo. Hysbysiad y byddant yn cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol yn y Neuadd Ddinesig gan fod yr yswiriant sydd ei angen i gydymffurfio â llogi Neuadd y Sir yn rhy ddrud. Nodwyd.
6. CSC – Ymgynghori ar Drosedd ac Anrhefn yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Maer wedi'i lanw a'i ddychwelyd.
7. Clwb Garddio Llandeilo a'r Cylch – parthed Llandeilo yn ei Blodau

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid rhoi grant o £500 i'r Clwb. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Atgoffwyd y Cynghorwyr o'r gwahoddiad i fynychu sgwrs a roddir gan Dr John Evans ar Wysg – Tref o Flodau

8. LlCC – Ymgynghoriad ar Wasanaethau Llawfeddygol Cyffredinol yn Sir Gâr. Bydd y Cyng Charlotte Leadbeater yn ei lanw.

9. Ymgynghoriad CSC ar Gyllideb y Cyngor 2008/9-2010/11. Bydd y Swyddog Cyllid yn gwneud sylwadau.

10. Cyfarfod y Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd y Cyng Charlotte Leadbeater yn mynychu'r cyfarfod ar Ragfyr 5ed, 2007.

11. David Rice- parthed gwaredu llystyfiant diangen ger Stryd y bont. Cytunwyd y dylai'r Cyngor ofyn i Mr Rice gynnig dyfynbris ar gyfer waredu'r llystyfiant dan sylw oddi yno. Dywedodd y Cyng Ros Bellamy y byddai'n archwilio amodau'r gwaith cynnal a chadw gwreiddiol a wnaed yn 2004.

12. Llio Silyn Davies - parthed cais am gymorth Ariannol i gynnal disgo i bobl ifanc yn ystod yr Ŵyl o'r Synhwyrau. Cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn gwneud unrhyw gyfraniad. Dylid anfon y llythyr ymlaen at y Siambr Fasnach, trefnwyr yr Ŵyl.

Cof 207 / Tachwedd / 07 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. CSC – Grwpiau Cerdded Iachus. Nodwyd.
2. Swyddfa Rheoliadau Rheilffyrdd – Dull Gwaredu Tir. Nodwyd.
3. Un Llais Cymru – Adroddiad y CBC. Nodwyd.
4. Cynllun Gwella CSC 2007-7 Crynodeb (CD) Nodwyd
5. Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru. Adroddiad Blynyddol. Nodwyd.
6. Nice Price News – Meddyliau ar yr Arddangosfa Tân Gwyllt. Nodwyd.
7. Cylchlythyr Ffederasiwn Ffermydd a Gerddi Trefol. Nodwyd.
8. Parcio a Theithio CSC yng Nghaerfyrddin yn dechrau 3.12.07. Nodwyd
9. Davies Richards – Cofnodion o'r cyfarfod ar 8.11.07. Nodwyd

Cof 208 / Tachwedd / 07 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

WCVA (Cyflogai Tachwedd 07)	£	178.24
WCVA (Tachwedd 07 Gweinyddiaeth)	£	35.54
Zurich Municipal (Yswiriant ar gyfer y Tân Gwyllt)	£	52.50
Lloyds British Testing Ltd (Goleuadau Nadolig)	£	793.13
Language Export Centre (cyfieithu'r taflenni treftadaeth)	£	634.50
BDO Stoy Hayward LLP (Archwiliad)	£	669.75
Dewis (Cyfieithu cofnodion)	£	404.10
Swyddog Technegol (botymau golau)	£	11.94
Cyng D.Wallace (prynu te, lleiniau te i'r Gegin)	£	7.77

Penderfynwyd y dylid talu'r rhain, a chynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill

i) Adroddiad Chwarterol ar y Gyllideb. Cyflwynodd y Cyng Ieuan Gwyn adroddiad yn cadarnhau'r holl archwiliadau sydd wedi'u gwneud ac ni welwyd unrhyw anghysondebau.

ii) Adroddiad yr Archwiliad Allanol. Adroddodd y Swyddog Cyllid fod yr Archwiliad ar gyfer 2006-7 bellach wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Yr unig sylw oedd fod yna anghysondeb o £1 sydd bellach wedi'i ddatrys. Cynigiwyd

gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid nodi'r adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid a diolchwyd y Swyddog Cyllid gan y Cyngor am ei waith.

iii) Adroddodd y Swyddog Cyllid bod £50,000 wedi'i drosglwyddo fel y gofynnwyd gan y Cyngor i'r bond llog uchel, ac fe ddylai hyn gynhyrchu incwm o £598 erbyn diwedd Chwefror ar y raddfa log bresennol o 4.75%.

iv) Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Cyllid drosglwyddo £5,000 o'r cyfrif cynilo i'r Cyfrif Cyfredol.

Cof 209 / Tachwedd/ /07 Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog

Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn fod yr Is-grŵp Gweithdrefnau bellach wedi cwblhau ei arolwg o'r Rheoliadau Ariannol, sydd bellach yn barod i'w cyfieithu.
Gofynnodd y grŵp am gynnal cyfarfod arall er mwyn cwblhau'r newidiadau i'r Gorchmynion Sefydlog.

Cof 210 / Tachwedd / 07 Cludiant a Phriffyrdd

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn llythyr gan Gyngor Bro Dyffryn Cennen yn nodi eu bod o'r farn nad yw'n amser da i gwrdd parthed y Ffordd osgoi.

Cof 211/ Tachwedd / 07 Y Dathliadau Canmlwyddiant ym Mharc Penlan

Adroddodd y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas ei fod wedi cynnal dau gyfarfod gyda Tenovus, yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, y Siambr Fasnach, cynrychiolwyr o'r Clwb Rotari a'r Ŵyl Gerdd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 'Round Table'. Cynhelir y prif ddathliad ar Fehefin 14eg 2008, y dyddiad agosaf i ban agorwyd y Parc yn wreiddiol a chynhelir rhyw fath o Ffair Edwardaidd yn y prynhawn, gyda Jas yn y Parc gyda'r nos. Gofynnodd y Cyng Thomas am ganiatâd i sefydlu gweithgor, i gynnwys Cynghorwyr a chynrychiolwyr o'r cyrff eraill. Hefyd awgrymwyd y dylid gwneud asesiad risg, ynghyd ag ymholiadau mewn perthynas â'r angen am amrywiol drwyddedau. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Christopher Parish y dylid rhoi'r caniatâd i'r Cyng Edward Thomas gychwyn ar y trefniadau. Roedd pawb o blaid.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins fod y Cyngor yn gohirio Gorchymyn Sefydlog Rhif 6 am 30 munud er mwyn i'r Cyngor fedru gorffen ei fusnes.

Cof 212 / Tachwedd / 07 Adroddiad ar Gyfarfodydd Davies Richards

Cafwyd trafodaeth gyffredinol parthed y cynigion i ddatblygu rhan Ogleddol Llandeilo. Seiliwyd hyn ar y dogfennau a ddosbarthwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Cyflwynodd pob Aelod ei sylwadau a bydd y Clerc yn anfon y rhain ymlaen at y Cyng Leadbeater. Bydd y Cyng Charlotte Leadbeater yn gofyn i Mr Kedrick Davies wneud cyflwyniad i'r Cyngor ar un dydd Sadwrn ym mis Ionawr.

Cof 213 / Tachwedd / 07 Adroddiad y Maer

Cyflwynodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r digwyddiad a fynychodd ar ran y Cyngor.

Cof 214 / Tachwedd/ 07 Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig

Dywedodd y Maer Cyng Richard Wallace fod yr holl drefniadau wedi'u cwblhau. Bydd y cynnau yn digwydd yn Sgwâr Bradford gyda Siôn Corn yn dod yn ei sled. Bydd band ysgol Tre-gib yn chwarae. Bydd y 'Round Table' yn darparu stondin bwyd poeth. Cyhoeddir enillwyr y gystadleuaeth ffenestr Nadolig.

Cof 215 / Tachwedd / 07 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol ffotograffau o gyflwr y bont siglo. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr llym at CSC yn mynegi pryderon y Cyngor parthed cyflwr peryglus y Bont. Nid yw Mr Davies hyd yn hyn wedi derbyn adroddiad gan Lorne Stewart. Gofynnodd y Swyddog Technegol am ganiatâd i gael contractwr i archwilio'r Byrddau allanol a'r blwch eira wrth ymyl y siop anifeiliaid anwes sydd o bosib yn achosi dŵr i lifo i mewn i'w heiddo. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid caniatáu swm o hyd at £500 i wneud y gwaith. Eiliwyd hyn gan y Cyng Roy Davies.

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Davies Electrical am gwblhau'r gwaith ar y goleuadau Nadolig ar amser. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 216 / Tachwedd / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Cyllid gysylltu â'r pensaer fel mater o frys er mwyn i'r contractwr gwblhau'r holl waith ar Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00pm